

# Rheoli Coridorau Trafnidiaeth ar gyfer Peillwyr

Mae coridorau trafndiaeth, yn cynnwys ffyrdd, rheilffyrdd, camlesi a llwybrau beiciau, yn darparu ystod o gynfinodd a nodweddion sydd o fudd i beillwyr. Mae 'ystâd feddal' trafndiaeth y DU'n ymestyn dros filiynau o hectarau o dir ac fe'i defnyddir gan gannoedd o rywogaethau o beillwyr. Mae'r canllaw hwn yn amlygu pam fod coridorau trafndiaeth yn bwysig i beillwyr a sut y gellir eu rheoli i ddarparu buddiannau ychwanegol.

## Cynefinoedd pwysig coridorau trafndiaeth a'u rheolaeth

Mae **glaswelltir a chynefinoedd blodau tal** a geir mewn coridorau trafndiaeth yn cynnwys glaswelltir sy'n fwy naturiol, cynefinoedd a ailgyfnewid yn naturiol ac ardaloedd a heuwyd yn artiffisial. Gallant fod yn doreithiog o flodau neu bron yn ddiflodau (er enghraifft glaswelltir a dorri garw neu laswelltir garw sydd wedi gordyfu).

Y lleiniau gorau ar gyfer peillwyr yw'r rheini sydd ag ystod eang o blanhigion blodeuol amrywiol a thoreithiog.

- ◆ Gall glaswelltiroedd ar briddoedd llai ffrwythlon fod yn hynod o gyfoethog mewn blodau gwyllt, gyda rhywogaethau fel pysen-y-ceirw, briallen Fair, llygad-llo mawr, briwydd a thegeirian.
- ◆ Ar briddoedd sy'n fwy ffrwythlon, mae amrywiaeth y blodau'n llai gan amlaf a'r llystyfiant yn fwy gwelltlog, sy'n darparu llai o fwyd ar gyfer peillwyr a llai o gynfin ar gyfer gwenyn sy'n nythu yn y ddaear a phryfed eraill.
- ◆ Gall lleiniau a adewir i dyfu'n dal, sydd â thoreth o farddanhadlen wen, gorthyfai, efwr, cyfardwf, ysgall neu helyglys, ddenu niferoedd mawr o beillwyr.

Mewn rhai ardaloedd trefol bydd dolydd ymyl ffordd 'darluniadol', a heuir yn artiffisial, yn darparu bwyd ar gyfer llawer o beillwyr ac yn gwneud amgylcheddau lleol yn fwy deniadol i bobol. Bydd angen cymryd gofal wrth leoli'r dolydd hyn er mwyn osgoi dinistrio neu ddifrodi cynefinoedd bywyd gwyllt eraill.



Torri lleiniau sensitif

## Rheoli glaswelltiroedd ar gyfer peillwyr

Dylai amserlenni torri gwair anelu i ganfod cydbwysedd rhwng diogelwch, amwynder ac anghenion peillwyr / bywyd gwyllt.

Ar hyd ymylon ffyrdd a llwybrau halio lletach bydd yn bosibl, fel arfer, defnyddio amserlenni torri gwair gwahanredol. Argymhellir tair ardal dorri:

1. Gellir torri'r strided sy'n union wrth ymyl ffordd neu lwybr troed, neu linellau gweld allweddol sydd eu hangen wrth gyffyrdd, yn aml am resymau diogelwch.
2. Dylid torri ardaloedd eraill yn llai aml (unwaith y flwyddyn efallai) er mwyn caniatáu i blanhigion flodeuo.
3. Dylid gadael rhai ardaloedd heb eu torri mewn cylchredau o nifer o flynyddoedd er mwyn caniatáu i flodau tal, prysgwydd a llwyni mwyar dyfu ac amrywio strwythur y llystyfiant.

Mae'n bwysig clirio torion o laswelltir sy'n llawn blodau gwyllt er mwyn rhwystro'r pridd rhag cael ei gyfoethogi, sy'n ffafrio planhigion garw a chystadleuol. Mae hyn hefyd yn cadw clytiaid o dir moel yn hygyrch i wenyn sy'n nythu yn y ddaear.

Ceisiwch osgoi dorri lleiniau yn ystod y prif gyfnodau blodeuo, er enghraifft ar ddiwedd mis Mai pan fydd gorthyfai a blodau ymenyn yn blodeuo, neu fis Gorffennaf pan fo ysgall, y bengaled a llysiâu'r gingroen yn blodeuo. Gall torri lleiniau o ansawdd is yn gynnar yn y tymor (mis Mai neu Fehefin) fod yn fuddiol gan y gall ohirio blodeuo tan ddechrau'r hydref, fodd bynnag bydd unrhyw waith torri a wneir cyn mis Medi'n effeithio ar y cyflenwad pail a neithdar ar gyfer peillwyr.

Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio chwynladdwyr, unai trwy dargedu ardaloedd sydd wrth ymyl rheilffyrdd neu ffyrdd neu trwy sbot-chwynnu clytiaid neu blanhigion problemus.

Mae **perthi** yn darparu blodau, cysgod rhag y gwynt, planhigion bwyd ar gyfer larfa peillwyr a safleoedd gaeafu wrth fôn y perthi. Bydd coed aeddfed fel ceirios, masarn, pisgwydd a chastanwydd y meirch yn darparu blodau hefyd.

- ◆ Dylech osgoi torri hydroedd mawrion o berthi ar y tro.
- ◆ Torrwch berthi mewn cylchred 3 blynedd (neu fwy). Yn aml iawn bydd nifer y blodau'n brin yn y blynyddoedd cyntaf ar ôl tocio.
- ◆ Gadewch i rai perthi ehangu'n llain o brysgwydd wedi ei rheoli. Bydd drain duon yn gwneud hyn yn hawdd trwy wylltimpio.
- ◆ Os ydych yn creu perthi newydd, dewiswch y rhywogaethau sydd fwyaf addas ar gyfer eich hardal leol, a defnyddiwch gyfuniad o rywogaethau i ddarparu tymor blodeuo hir.

Mae **prysgwydd a choetir** yn nodwedd gyffredin mewn coridorau rheilffordd ac ar hyd ymylon traffyrdd. Mae prysgwydd yn ffynhonnell bwysig o flodau, lloches a chysgod. O beidio â chael ei reoli, gall dresmasu ar gynefinoedd gwerthfawr eraill fel glaswelltir a thir moel, gan leihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer peillwyr. Defnyddiwch gylchred torri 10 mlynedd a cheisiwch sicrhau bod amrywiaeth o rywogaethau prysgwydd yn blodeuo bob blwyddyn.

Mae **coed a llwyni mwy o faint** yn nodweddion strydoedd trefol, yn benodol. Gallant gynnwys cymysgedd o rywogaethau brodorol ac egsotig. Gall llwyni blodeuo mewn lleoliadau heulog, cysgodol ddenu niferoedd mawr iawn o beillwyr.

- ◆ Bydd coed o deulu'r rhosyn (Rosaceae), fel drain, crafal, afalau (surion), gellyg a hefinwydd yn darparu cyflenwad toreithiog o baill a neithdar.
- ◆ Dylid osgoi planhigion â blodau dwbl gan y gall y rhain fod yn dda i ddim ar gyfer peillwyr.
- ◆ Mae gwenyn yn hoff iawn o godlysiau prenaidd fel pren locust a thresi aur.

Mae gan Brydain amryw o goed hynafol, hynod sydd o bwys rhyngwladol yn tyfu ar hyd ymylon ffyrdd a rheilffyrdd. Mae'r coed yma'n cynnal rhai o'n peillwyr prinnaf, yn cynnwys pryfed hofran prin. Dylid gwneud pob ymdrech i'w cadw a chanfod ffyrdd dyfeisgar i leihau risgiau diogelwch, er enghraifft trwy bropio a rheoli'r corun yn ofalus.

### Strwythurau adeiledig, gorsafoedd ayyb

Gall waliau a phontydd gynnal dringwyr blodeuol brodorol, fel iorwg a gwyddfid. Mae gan hen fricwaith a gwaith maen eu cynefin blodeuog eu hunain hefyd, sy'n cynnwys creulys Rhydychen, triaglog goch, trwyn-y-llo dail eiddew ac ysgaw. Mae'r planhigion hyn yn darparu ffynonellau cyfoethog o baill a neithdar felly, os nad oes angen clirio llystyfiant o'r fath, dylid ei adael i beillwyr ei ddefnyddio.

Gall gorsafoedd trên, gorsafoedd petrol a datblygiadau

ar hyd ymyl camlesi fod yn ddelfrydol ar gyfer creu nodweddion deniadol fydd yn gyfeillgar i beillwyr, yn cynnwys toeau gwyrddion blodeuog, gwelyau blodau, gerddi llwyni sy'n blodeuo a gerddi sil ffenestr. Mae'n rhwydd iawn cynnwys gwestai gwenyn, torlannau gwenyn a charnau coed er mwyn darparu safleoedd nythu ar gyfer gwenyn sy'n nythu yn uchel. Mae pyllau hefyd yn darparu cynefin defnyddiol.

Mae **nodweddion gwlyb** fel camlesi a phyllau mantoli sydd â siglen ymylol, ynghyd â ffosydd, yn cynnal blodau gwlyptir fel gold y gors, briwlys y gors, erwain a helyglys pêr, sydd i gyd yn ffynonellau paill a neithdar da. Mae'n gymharol hawdd cynnwys nodweddion draenio sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt mewn cynlluniau ar gyfer ffyrdd newydd. Mae'r rheini a ddefnyddir i leihau llygredd mewn dŵr ffo yn darparu cynefin da ar gyfer larfa pryfed hofran dyfrol (y mae llawer ohonynt yn gymharol oddefgar o lygredd).

Yn aml bydd **argloddiau, hafnau a llethrau** yn darparu cynefin da ar gyfer peillwyr. Mae serthrwydd y tir yn golygu nad yw'r ardaloedd hyn yn cael eu torri mor aml ac nad ydynt yn cael eu tirlunio'n ffurfiol.

- ◆ Yn aml iawn bydd gan lethrau sy'n wynebu'r de ac sy'n ddigysgod, bridd sychach a llystyfiant teneuach a gallant fod yn gynnes iawn. Byddant yn cynnal nifer o wenyn a glöynnod byw sy'n ei chael yn anos yn amodau oerach a mwy llaith llethrau sy'n wynebu'r gogledd.
- ◆ Mewn hafau sychion a gwres mawr dros gyfnod hir gall llethrau sy'n wynebu'r de golli'r mwyafrif o'u blodau erbyn diwedd yr haf, felly bydd llethrau sy'n wynebu'r gogledd yn bwysicach ar gyfer peillwyr.
- ◆ Ble fo prysgwydd yn cael ei reoli mewn hafn, mae'n gwneud synnwyr i gadw llai ar lethrau sy'n wynebu'r de ond gadael mwy ar lethrau sy'n wynebu'r gogledd ble y gall helpu i gynhyrchu amodau cysgodol a llaith.



Llystyfiant ymylol siglen

Only room for one image at this size.  
Is one image only OK, or would you prefer two smaller images like on page 1?



## Planhigion, llwyni a choed goresgynol

Mae coridorau trafndiaeth yn enwedig, yn dueddol o gael eu gwladychu gan rywogaethau estron goresgynol o blanhigion, llwyni a choed. Bellach mae rhai o'r planhigion hyn wedi hen gynefino yno ac maent yn gweithredu fel ffynonellau bwyd gwerthfawr iawn ar gyfer peillwyr.

Gall rhai planhigion estron, yn cynnwys clymog Japan, bwdleia, clymog Rwsia, alan bêr a rhododendron, ynghyd â rhywogaethau brodorol fel y ddraenen ddu, coed bedw, llwyni mwyar, gorthyfail, cegiden a danadl poethion, dyfu'n drechol a gwasgu blodau pwysig eraill y mae peillwyr eu hangen allan.

Bellach mae planhigion goresgynol mor gyffredin ar hyd coridorau trafndiaeth fel ei bod yn synhwyrol i flaenoriaethu camau gweithredu gan ganolbwyntio ar safleoedd ble fo cynefinoedd pwysig neu rywogaethau prin o beillwyr yn bresennol.



Glaswelltir yn llawn blodau gwyllt

## Sut fydd Peillwyr yn defnyddio Coridorau Trafndiaeth?

**Bwyd** – gall coridorau trafndiaeth ddarparu amrywiaeth a thrwch da o flodau rhwng y gwanwyn a'r hydref, gan gyflenwi bwyd (neithdar a phail) ar gyfer llawer o beillwyr. Caiff y blodau hyn eu defnyddio nid yn unig gan beillwyr sy'n bridio yn y coridor ond byddant hefyd yn denu peillwyr eraill o gryn bellter i ffwrdd. Gall llwyni sy'n blodeuo'n y gwanwyn, fel helyg, drain duon a drain gwynion, ac ysgall, creulys ac aelodau o deulu'r foronen (er enghraifft gorthyfail ac efwr) gynyddu niferoedd peillwyr yn sylweddol.

**Bridio** – gall coridorau trafndiaeth ddarparu'r cynefinoedd bridio a nythu sydd eu hangen ar ystod eang o beillwyr. Mae hen dyllau a llystyfiant trwchus yn darparu safleoedd nythu ar gyfer cacwn, tra bo llethrau heulog a thir sych moel yn cael eu defnyddio gan wenyng sy'n nythu yn y ddaear, fel gwenyn turio, parasitiaid gwenynbryf a'r gwenyn cwcw nomadaidd. Bydd larfa pryfed hofran a pheillwyr eraill yn defnyddio ffosydd, cwteri, pyllau mantoli a siglenni wrth ymyl camlesi, yn ogystal â choed aeddfed a choed marw. Mae ystod amrywiol o blanhigion yn darparu bwyd ar gyfer larfa peillwyr, yn cynnwys lindys gwyfynod.



Mae argaeledd planhigion bwyd larfaol yn bwysig iawn

**Gaeafu** – gall llystyfiant trwchus fel glaswelltir twmpathog, prysgwydd, adeiladau a rwbel ddarparu cynefin hanfodol ar gyfer peillwyr sy'n gaeafgysgu. Bydd llawer o rywogaethau'n gaeafu ar ffurf oedolion, yn cynnwys breninesau cacwn a rhai glöynnod byw a phryfed hofran, tra bo eraill yn gaeafu ar ffurf larfâu, chwilerod neu wyau.

**Coridorau bywyd gwyllt** - mae gan coridorau trafndiaeth rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu i gydgyssylltu tameidiau sydd ar ôl o gynefinoedd eraill fel glaswelltir, rhostir a choetir sy'n gyforiog o rywogaethau. Mae'r coridorau hyn yn helpu peillwyr i symud o amgylch y dirwedd ac mae'n golygu bod eu poblogaethau'n fwy gwydn i wrthsefyll bygythiadau fel newid hinsawdd a cholli cynefinoedd.

## Creu coridorau newydd sy'n gyfeillgar i beillwyr

Mae cysylltiadau trafndiaeth newydd, neu rai sy'n cael eu ehangu, yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer creu cynefinoedd sy'n gyfeillgar i beillwyr. Wrth greu glaswelltir newydd mae'n well osgoi defnyddio uwchbridd gan y bydd ei lefel ffrwythlondeb uchel yn helpu planhigion cystadleuol i gael y llaw uchaf a hynny ar draul blodau gwyllt.

Mewn ardaloedd sialc, calchfaen neu dywodlyd (yn enwedig ble fo'r creigwely neu isbridd anffrwythlon yn y golwg), dylid gadael i safleoedd adfer yn naturiol o'r gronfa hadau leol heb fynd ati i hau eich hun. Mae rhai o'r lleiniau ymyl ffyrdd mwyaf toreithiog o ran bywyd gwyllt wedi datblygu'n y modd yma.

Cofiwch sicrhau bod unrhyw hadau a ddefnyddir yn tarddu o'r DU ac, yn ddelfrydol, ceisiwch ddefnyddio hadau sydd â tharddiad lleol neu wair gwyrdd. Dylid teilwra cynnwys y gymysgedd hadau yn ôl y math o bridd a'r lleoliad. Gall hadau'r gribell felen helpu i leihau twf glaswellt a chynorthwyo blodau gwyllt i ymsefydlu.

Os oes rwbel ffrwythlondeb isel ar gael meddyliwch am ei ddefnyddio i gapio unrhyw briddoedd ffrwythlon neu glytiau eraill o dir ac yna gadael i adferiad naturiol ddigwydd. Gall hyn fod yn ffordd rad a hawdd o greu ardaloedd newydd o laswelltir sy'n gyfeillgar i beillwyr.

## Natur dymhorol blodeuo

Mae coridorau trafndiaeth yn arddangos elfen dymhorol gref o ran yr adnoddau bwyd y maent yn eu darparu ar gyfer peillwyr. Bydd amrywiaeth a chyfuniad yr adnoddau blodau yn cael effaith sylweddol ar yr ystod o beillwyr a welir ar safle penodol.

**Gwanwyn** – mae llwyni a choed sy'n blodeuo'n y gwanwyn yn hanfodol ar gyfer peillwyr cynnar yn cynnwys breninesau cacwn a gwenyn meirch, glöynnod byw a gwyfynod. Gall rhywogaethau gwyllt a rhai a blennir fod cyn bwysiced â'i gilydd. Bydd y goeden goeg-geirios, yr helygen ddeilgron ac eithin yn dechrau blodeuo ym mis Mawrth, a daw'r drain duon, coed eirin, ceirios a helyg mwy o faint i benllanw ym mis Ebrill. Daw'n benllanw blodeuo'r ddraenen wen ym mis Mai, wedi ei dilyn ggan y cwyrrosyn, ysgawen y gors a llwyni mwyar fydd yn blodeuo ym mis Mehefin.

Bydd blodau'r gwanwyn, fel eirlysiau a saffrwm yn ymddangos ym mis Chwefror, sy'n gynnar i lawer o beillwyr. Ond, erbyn mis Ebrill, mae fioledau, briallu, briallu Mair, dant-y-llew a marddanadl yn ffynonellau bwyd allweddol, wedi eu dilyn gan flodau ymenyn, gorthyfai, garlleg y berth a chyfardwf.

**Haf** - mae blodau gwyllt fel teulu'r ysgall-llygad y dydd-dant y llew (Asteraceae), teulu'r foronen (Apiaceae) a theulu'r bysen (Fabaceae) yn ffynonellau bwyd allweddol ar gyfer peillwyr yn ystod misoedd yr haf. Ym mis Mehefin a Gorffennaf gall efwr ac ysgall fod yn bwysig iawn. Caiff rhywogaethau prenaidd fel yr ysgawen, pigwydd, llwyni mwyar, cwyrros a rhosod, lawer o ddefnydd gan beillwyr hefyd.

**Hydref** – Gan amlaf bydd blodeuo'n arafu ar ôl mis Awst, ond bydd planhigion fel tamaid y cythraul, ysgall, peradyl yr hydref, llyisiau'r gingroen, tafod-y-llew gwrychog, milddail a grug yn parhau i flodeuo ymlaen i'r hydref. Mae iorwg yn un o flodau pwysicaf yr hydref gan ddenu niferoedd mawr iawn o löynnod byw, gwenyn a phryfed.



Enghreifftiau o goridorau trafndiaeth sy'n gyfeillgar i beillwyr, yn yr haf. Llawn ymyl ffordd yn llawn llygad-llo mawr (chwith uchaf), llawn ymyl ffordd yn llawn efwr (dde uchaf), llyisiau'r gingroen a marchysgall ar lain (chwith isaf) a rheilffordd gyda moronen y maes a llyisiau'r gingroen yn tyfu ar falast (dde isaf).





Mae coridorau trafndiaeth yn ffynonellau pwysig ar gyfer blodau'r gwanwyn ac maent yn cynnig cyfres o wahanol flodau all gychwyn gyda'r goeden goeg-geirios a'r helygen ddeilgron (chwith a de uchaf) gan symud ymlaen i ddrain duon a drain gwynion (chwith a de canol). Mae'r rhain yn bwysig ar gyfer glöynnod byw fel y trilliw bach, breninesau cacwn a nifer o fathau o bryfed hofran (chwith a de isaf).

O dro i dro ceir hyd i **beillwyr prin** mewn coridorau trafndiaeth sydd yno fel ymwelwyr, ond hefyd fel trigolion sy'n bridio. Ble gwyddom fod y rhywogaethau hyn yn bridio, mae'n bwysig dynodi unrhyw anghenion penodol fel planhigion bwyd neu safleoedd nythu a chynnwys y rhain mewn penderfyniadau rheoli. Mae rhai peillwyr prin y gwyddir eu bod i'w cael mewn coridorau trafndiaeth yn cynnwys:

**Glöynnod byw:** glesyn Adonis, brithribin brown, glesyn sialc, gwibiwr llwyd, coegfritheg, gwibiwr brith, britheg y gors, argws brown y gogledd, gwibiwr arian, glesyn serenog, glesyn bach

**Gwenyn:** gwenynen durio pen mawr (*Andrena bucephala*), gwenynen durio clafrllys fawr (*Andrena hattorfiana*), gwenynen bwm fawr felen (*Bombus distinguendus*), Cardwenynen lwydfrown (*Bombus humilis*), gwenynen bwm fawr yr ardd (*Bombus hortorum*), Cardwenynen goesgoch (*Bombus ruderarius*), Cardwenynen feinlais (*Bombus sylvarum*).

**Pryfed:** *Pocota personata* (ar goed hynafol), *Stratiomys longicornis* a *Hybomitra rustica* (mewn ffosydd arfordirol)

## Darllen pellach

- DEFRA 2014. Transport Corridor – tailored advice on managing land for pollinators:  
[www.wildlifetrusts.org/sites/default/files/6192\\_defra\\_info\\_sheet\\_transport\\_corridors\\_final.pdf](http://www.wildlifetrusts.org/sites/default/files/6192_defra_info_sheet_transport_corridors_final.pdf)
- Plantlife 2015. Road verges and wildlife management guidelines:  
[www.plantlife.org.uk/uploads/documents/Road\\_Verge\\_Campaign\\_full\\_guidelines\\_2015.pdf](http://www.plantlife.org.uk/uploads/documents/Road_Verge_Campaign_full_guidelines_2015.pdf)
- Hambrey Consulting. 2013. The management of roadside verges for biodiversity. Scottish Natural Heritage Commissioned Report 551.  
[www.snh.org.uk/pdfs/publications/commissioned\\_reports/551.pdf](http://www.snh.org.uk/pdfs/publications/commissioned_reports/551.pdf)
- Buglife. Gwe-dudalennau Living Roofs:  
[www.buglife.org.uk/campaigns-and-our-work/habitat-projects/living-roofs](http://www.buglife.org.uk/campaigns-and-our-work/habitat-projects/living-roofs)
- Crofts, A. a Jefferson, R.G. 1999 Lowland Grassland Management Handbook. English Nature/The Wildlife Trusts.
- Gwefan Hedgelink UK: [www.hedgelink.org.uk/hedgerow-management.htm](http://www.hedgelink.org.uk/hedgerow-management.htm)
- Hopwood, J. et. al. 2015. Literature Review: Pollinator Habitat Enhancement and Best Management Practices in Highway Rights-of-Way. Xerces Society for Invertebrate Conservation mewn cydweithrediad ag ICF International:  
[www.environment.fhwa.dot.gov/ecosystems/documents/pollinators\\_BMPs\\_in\\_highway\\_ROW.pdf](http://www.environment.fhwa.dot.gov/ecosystems/documents/pollinators_BMPs_in_highway_ROW.pdf)
- Kirby, P. 1992. Habitat Management for Invertebrates: a practical handbook. RSPB.
- Buglife. Managing priority habitats for invertebrates:  
[www.buglife.org.uk/advice-and-publications/managing-priority-habitats-invertebrates](http://www.buglife.org.uk/advice-and-publications/managing-priority-habitats-invertebrates)

Cydnabyddiaeth ffotograffiaeth © Steven Falk a Buglife

buglife.org.uk 01733 201210 @buzz\_dont\_tweet

Mae Buglife The Invertebrate Conservation Trust yn elusen gofrestrdig yn  
Bug House, Ham Lane, Orton Waterville, Peterborough, PE2 5UU  
Rhif Elusen Gofrestredig: 1092293, Rhif Elusen Yr Alban: SCO40004, Rhif Cwmni: 4132695



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**